# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 19
03/08/20

## Moses yn fabi

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes, Heather Suthers, Gemma Roberts & Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**

Bryd hynny, roedd dyn o deulu Lefi wedi priodi gwraig ifanc oedd hefyd yn un o ddisgynyddion Lefi. A dyma'r wraig yn beichiogi, ac yn cael mab. Pan welodd hi'r babi bach hyfryd, dyma hi'n ei guddio am dri mis. Ond ar ôl hynny roedd hi'n amhosib ei guddio. Felly dyma hi'n cymryd basged frwyn, a'i selio gyda tar. Yna rhoi'r babi yn y fasged, a'i osod yng nghanol y brwyn ar lan afon Nîl. Aeth chwaer y plentyn i sefyll heb fod yn rhy bell, i weld beth fyddai'n digwydd iddo.



Daeth merch y Pharo i lawr at yr afon i ymdrochi, tra oedd ei morynion yn cerdded ar lan yr afon. A dyma hi'n sylwi ar y fasged yng nghanol y brwyn, ac yn anfon caethferch i'w nôl. Agorodd y fasged, a gweld y babi bach – bachgen, ac roedd yn crio. Roedd hi'n teimlo trueni drosto. “Un o blant yr Hebreaid ydy hwn,” meddai. Yna dyma chwaer y plentyn yn mynd at ferch y Pharo, a gofyn, “Ga i fynd i nôl un o'r gwragedd Hebreig i fagu'r plentyn i chi?” A dyma ferch y Pharo yn dweud, “Ie, gwna hynny!” Felly dyma hi'n mynd adre i nôl mam y babi. A dyma ferch y Pharo yn dweud wrthi, “Dw i eisiau i ti gymryd y plentyn yma, a'i fagu ar y fron i mi. Gwna i dalu cyflog i ti am wneud hynny.” Felly aeth y wraig a'r plentyn adre i'w fagu.

Yna, pan oedd y plentyn yn ddigon hen, dyma hi'n mynd ag e at ferch y Pharo, a dyma hithau'n ei fabwysiadu yn fab iddi'i hun. Rhoddodd yr enw Moses iddo – “Am fy mod wedi'i dynnu allan o'r dŵr,” meddai.

*Exodus 2:1-10 Beibl.net*

**Fersiwn syml**



Roedd bachgen bach wedi ei eni i deulu yn yr Aifft, ond roedd Pharo eisiau i bob bachgen newydd ei eni cael ei daflu i’r Nîl. Cuddiodd y fam ei baban er mwyn ei gadw’n ddiogel.

Fel roedd y babi’n tyfu roedd hi’n mynd yn anoddach ei guddio gan ei fod yn crïo mwy. Rhoddodd y babi mewn basged a’i osod yn y brwyn ar lan yr afon. Arhosodd ei chwaer yn ymyl i weld beth fyddai’n digwydd.

Daeth merch y Pharo at yr afon i ymdrochi a gwelodd y fasged. Agorodd y basged a gwelodd y baban. Aeth ei chwaer at y dywysoges a gofynnodd, “Hoffet ti i mi nôl rhywun i ofalu amdano?” Cytunodd y dywysoges ac aeth y ferch i nôl ei mam.

Dywedodd y dywysoges wrth y fam, “Edrycha ar ei ôl i mi. Rydyw i’n mynd i’w alw’n Moses.”

# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1. Pan oeddet ti’n fabi, mewn beth oeddet ti’n cysgu? (Gofynna i dy rieni).
2. Yn yr hanes, roedd yn rhaid cuddio’r babi. Pa mor hawdd wyt ti’n meddwl ydi cuddio babi bach?
3. Sut oedd Duw wedi gofalu fod Moses, y babi, wedi cael ei achub?
4. Sut mae Duw wedi gofalu amdanat ti ers i ti gael dy eni?



# Stori i'w lliwio

# Mae'r Babi Moses yn Ddiogel

www.lambsongs.co.nz Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Atebodd Duw weddïau fam y babi Moses a'i achub o. Roedd gan Dduw gynllun arbennig ar gyfer Moses a hynny oedd i achub pobl Dduw wedi iddo dyfu'n ddyn.




Tyfodd plant Israel i fod yn fawr a chryf ac roedd yn rhaid iddyn nhw weithio'n galed iawn i Pharo. Dywedodd Pharo, brenin yr Aifft, "Rydw i'n mynd i gymryd y bechgyn sy'n fabis i gyd cyn iddyn nhw ddod yn gryfach na fi."



Roedd gan Miriam frawd oedd yn fabi bach, hardd. Edrychodd hi drwy ei ffenestr. Pan ddaeth y milwyr cuddiodd y teulu'r baban Moses a gweddïo ar i Dduw ei gadw'n ddiogel.



Cyn hir roedd y babi'n rhy fawr i'w guddio. Gwnaeth ei fam wely bach arbennig iddo, mewn basged fyddai'n arnofio i lawr yr afon Nîl i fan diogel. "Fe fydd Duw yn gofalu amdano," meddai.



Gosododd ef yn y gwely bach a syrthiodd y bychan i gysgu. "O Dduw, cadwa'n babi bach yn ddiogel," gweddïodd ei fam. Roedd Miriam ei chwaer yn gwylio'n ymyl. Yna dechreuodd y babi grïo.



Gwelodd Miriam dywysoges yn dod i lawr at yr afon. Daeth y dywysoges o hyd i'r babi ac roedd yn ei garu. "Wnai ei alw fo'n Moses," meddai,"ond rydw i angen dynes i fy helpu i ofalu amdano."




Gwelodd y dywysoges Miriam a'i hanfon hi i chwilio am wraig allai ofalu am y babi llwglyd. Rhedodd Miriam adref i nôl ei mam a dywedodd, "Mae'r dywysoges angen i ti ofalu am y babi!"



Pan oedd yn hŷn aeth Moses i fyw gyda'r dywysoges ym mhalas y Pharo. Roedd Moses yn caru Duw â'i holl galon a gwyddai fod Duw wedi ei gadw'n ddiogel.

# Lliwio



© Crafting The Word Of God

# Gweddi fer

O Dduw,  rwyt Ti'n gwybod bob dim amdana i ers pan oeddwn i'n fabi.
Diolch am dy ofal Di amdana i bob dydd.
Diolch mod i wedi tyfu a dysgu gymaint.
Plîs helpa fi i dy nabod Di'n well bob dydd.
Amen.



# Posau

Mae rhywun wedi cymysgu llythrennau pob gair.
Fedri di eu trefnu i ddod o hyd i'r pennill?

iF n'ys bogwyd theb wd i idwe'i llyngnoiu ra echi ryfec hic,"

______________________________________________

addmie'r DDARWLYG. "wD 'ni rwbidau hice ethbinodi ich,


______________________________________________

mid degwun widen i ich. wD i ma iro fododyl allwn

______________________________________________

thogabi i cih. reeJemia 92 odand 11

______________________________________________



# Chwilair


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | L | E | N | T | Y | N | O | H | A | L | Î |
| E | L | I | Ŵ | O | T | O | I | L | Y | W | G |
| M | A | M | B | A | F | W | R | U | N | Î | L |
| I | I | CH | R | A | D | A | C | G | U | W | I |
| R | M | I | W | N | E | G | CH | A | B | N | E |
| I | R | B | Y | A | I | R | I | M | U | O | S |
| A | PH | A | N | H | E | B | R | E | A | I | D |
| M | I | S | Î | F | A | R | T | A | M | N | Ŵ |
| A | R | G | TH | I | CH | O | R | D | M | Y | R |
| O | M | E | R | CH | B | R | G | PH | A | R | O |
| W | A | D | Ŵ | Y | L | A | S | E | S | O | M |
| C | U | DD | I | O | H | PH | B | O | DD | M | LL |

AFON
BABI
BACHGEN
BASGED
BRWYN
CAETHFERCH
CRIO
CUDDIO
CHWAER
DŴR
GWYLIO
HEBREAID
MAGU

MAM
MERCH
MIRIAM
MORYNION
MOSES
MIS
NÎL
PLENTYN
PHARO
TAR
TRI
YMDROCHI



# Dolenni




Sgetsh bypedau - Moses yn fabi https://youtu.be/E_KdEfcdvdQ

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/9ZKpsmJd4-k



Fideo o'r stori https://youtu.be/WVpA6HwKIXM



Cartŵn o'r stori https://www.youtube.com/watch?v=vf-4x4iefQE&t=112s

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://ww w.youtube.com/channel/UCzhjwum9-XieYxdQY-r1OJw *(cliciwch 'Subscribe')*

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Gweddi Greadigol

## Gweddi’n arnofio



**Bydd angen:**
- Casys cacennau bach
- Pom-poms bach
- Bowlen o ddŵr (neu dŵr mewn sinc)

**Beth i’w wneud:**
- Cymer un Cas cacen fach.
- Meddylia am rywun sy’n dy gadw’n ddiogel neu rywun sydd angen help i fod yn ddiogel.
- Rho un pom-pom bach yn y cas papur.
- Dyweda diolch wrth Dduw am dy gadw’n ddiogel neu gofynna i Dduw helpu rywun i fod yn ddiogel.
- Ar ôl i ti weddïo, rho’r cas papur i arnofio ar y dŵr.
- Os wyt ti eisiau, meddylia am rywun arall i weddïo drosto a defnyddia gas cacen a phom-pom arall.

## Gweddi’r babis



**Bydd angen:**
- Stribedi papur
- Pinnau ffelt
- Glud

**Beth i’w wneud:**
- Meddylia am fabis rwyt ti’n eu hadnabod.
- Ysgrifenna enw babi ar ganol stribed bapur ac addurno o’i gwmpas.
- Wrth i ti addurno, gofynna i Dduw helpu’r babi bach i dyfu’n iach ac yn gryf.
- Gwna’r un fath â’r stribedi eraill.
- Gluda ddau ben un stribed yn ei gilydd i wneud cylch.
- Gluda ddau ben y stribed nesaf a’i roi trwy’r cylch cyntaf cyn ei gau i greu cadwyn.
- Gwna’r un fath gyda’r stribedi eraill.

## Y Bydwragedd

Dyma luniau o fydwragedd. Mae bydwragedd yn helpu merched sy’n feichiog ac yn helpu i ofalu am fabis. Heddiw cawn hanes Moses pan oedd o’n fabi.



Fe wnaeth y bydwragedd Hebreig achub bywydau babis bach oedd yn fechgyn. Moses oedd un o’r babis rheini.

Edrycha ar y lluniau a meddylia am y bydwragedd sy’n gweithio yn dy gymuned i ddod â babis i’r byd yn ddiogel a’r gofal maen nhw’n ei roi i’r teuluoedd maen nhw’n gweithio â nhw.



# Sialensau



## Codi arian i helpu plant ar draws y byd

Mae elusen Achub y Plant ('Save the Children') yn gofyn am help i godi arian i helpu plant y byd sy'n byw mewn llefydd anodd i aros yn iach, yn ddiogel a chael cyfle i ddysgu.
Beth am fynd ati i drefnu Taith Gerdded Pyllau Mwdlyd?
Buasai pawb sy'n cymryd rhan yn cael pobl i'w noddi.
Os hoffet to gael hwyl a chyfle i helpu plant ar draws y byd, dilyna'r ddolen hon:
https://www.savethechildren.org.uk/how-you-can-help/events-and-fundraising/muddy-puddle-walk

Save the Children

## Lluniau babis

Gofynna am help dy deulu i ddod o hyd i luniau o bawb ohonoch yn fabis. Beth am greu albwm lluniau ohonoch chi?



## Arnofio?

Rho dic yn ymyl pob un o'r pethau os wyt ti'n meddwl eu bod nhw'n arnofio.



















# Crefft

Yn y pecyn diwethaf, edrychon ni ar hanes y dyn oedd wedi ei barlysu ac fe gefaist ti'r cyfle i wehyddu matiau. Yr wythnos hon, am ein bod yn edrych ar hanes Moses, rwyt ti'n mynd i ddysgu sut i wehyddu basged.

## Gwehyddu basged






**Byddi angen:**
2 x cerdyn lliw A4,
mwg sydd â diamedr o 9cm,
pren mesur,
pensil,
siswrn,
glud.





1. Mesura 4 stribed o gerdyn 2cm x 30 cm. Torra nhw allan.







2. Defnyddia bensil i wneud amlinelliad o ddiamedr y mwg. Mae'n RHAID i'r diamedr fod yn 9cm. (Diamedr cylch ydy'r llinell sy'n mynd reit drwy ganol y cylch o un ochr yn union i'r ochr arall.) Torra'r cylch allan.




3. Mesura 10 stribed o gerdyn 2cm x 12cm. Torra nhw allan.




4.Gwna amlinelliad o rimyn y mwg ar y cerdyn arall. Torra'r cylch allan.




5.Nawr mae gen ti bopeth yn barod ar gyfer gwneud y fasged.



6.Gorchuddia'r cylch melyn â glud ac ychwanega 10 stribed bach ar ymyl y cylch i edrych fel yr haul.



7.Gorchuddia'r cerdyn lliw gwahanol â glud a'i osod ar ben yr 'haul.'




8.Pwysa'r 2 gylch at ei gilydd yn gadarn ac yna plyga'r 10 stribed bach yn pwyntio ar i fyny.



9. Rho lud ar ben y stribed hir (pinc yma) a phlyga'r cerdyn i wneud cylch. Pwysa ddau ben y stribed at ei gilydd yn gadarn.




10.Bydd angen i ti ail adrodd cam 9 gyda stribedi hir nes y bydd gen ti 4 cylch.



11.Gosoda'r cylch ar y stribedi bach (melyn yn y llun). Gwehydda'r stribedi bach (melyn) i mewn ac allan fel yn y llun.




12.Gwthia'r cylch i lawr i waelod y fasged. Gluda'r stribedi wrth i ti fynd yn dy flaen.



13. Yna gosoda gylch arall ar y fasged. Gofala dy fod yn gwehyddu'r stribedi bach(melyn) y ffordd groes i'r ffordd wnest ti eu gwehyddu y tro cyntaf.

14.Gosoda'r 4 cylch ar y fasged gan eu gwthio'n ofalus i lawr fel bod dim bylchau yn y gwehyddiad. Gwna'n siwr dy fod yn gwehyddu i mewn ac allan yna allan ac i mewn a gluda'r stribedi wrth i ti fynd yn dy flaen gyda'r gwaith.



16.Mae angen torri'r stribedi melyn sydd y tu mewn i'r cylch pinc fel eu bod yr un uchder â'r fasged ac yna eu gludo i'r cylch pinc.

15.Wedi i ti ddod i'r diwedd gluda'r stribedi bach (melyn) sydd ar y tu allan i'r cylch mawr (pinc) a phlyga nhw drosodd i mewn i'r fasged a phwyso i lawr arnyn nhw'n gadarn.

# Rysáit



## Basgedi Moses

**Cynhwysion**
200 gram o siocled brown wedi ei dorri'n ddarnau llai
85 gram o 'Shredded Wheat' wedi ei falu
Paced o 'Jelly Babies'
Casys dal cacennau bach

**Dull**
1. Todda'r siocled mewn bowlen wedi ei gosod mewn bowlen fwy yn llawn dŵr poeth.
2. Arllwysa'r siocled tawdd dros y Shredded Wheat sydd mewn bowlen arall a chymysga'r cyfan.
3. Llwya'r gymysgedd i mewn i 12 o gasys dal cacennau bach ac yna pwysa i lawr yng nghanol y gymysgedd â chefn y llwy de i greu siâp basged.
4. Rho jelly baby ynghanol y fasged ble mae'r pant.
5. Oera'r basgedi yn yr oergell am 2 awr nes y byddan nhw wedi caledu.



Bydd angen oedolyn i dy helpu ac i dy arolygu yng ngham 1.

# Canu

Dyma eiriau ein Harglwydd Dduw i ni:

"Mae gen i gynllun llawn bendithion o hyd;
cynllun llawn daioni a heddwch bob dydd;
nid yw'n gynllun i gosbi - fydd dim niwed gen i;
Dwi am roi dyfodol llawn gobaith i chi.

Byddwch yn galw arna i a bydda i'n gwrando,
chwiliwch amdanaf a byddwch chi'n ffeindio i.
O fy mhlant annwyl rhowch eich calonnau i gyd.
Bydda i'n gadael i chi ddod o hyd i mi.
O fy mhlant annwyl, dewch ataf i."



Daw'r geiriau ar gyfer y gân hon o'r Beibl - Jeremeia pennod 29 adnodau 11-14

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/9ZKpsmJd4-k

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon, cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

*Hawlfraint 2020 Andy Hughes*

# Gemau

## Gêm y ‘Jelly Babies’



**Byddi angen:**
- Paced o ‘Jelly Babies’
- 2 bowlen a 2 llwy
- Amserydd

**Sut i Chwarae:**
- Rho’r ‘Jelly Babies’ yn un o’r bowlenni.
- Gosoda’r bowlen arall tua 6 modfedd i ffwrdd.
- Gan ddefnyddio’r llwyau symuda’r ‘Jelly Babies’ o un bowlen i’r llall.
- Nod y gêm ydy gweld faint o ‘Jelly Babies’ fedri di eu symud mewn 60 eiliad.
- Fedri di guro dy sgôr uchaf neu gelli di gystadlu yn erbyn aelod o’r teulu.

## Ras cychod bach brwyn

Mae hon yn gêm dda i chwarae pan fyddi’n mynd am dro yn ymyl nant neu afon fach lle mae brwyn yn tyfu.

**Bydd angen:**
- brwyn – digon i bob chwaraewr, a rhai dros ben
- nant neu afon fach i rasio’r cychod brwyn

**Gwneud cwch o frwynen:**
Yn gyntaf bydd angen gwneud y cychod bach brwyn.
Llun 1: Cymer frwynen a’i phlygu hyd dy fys.
Llun 2 + 3: Plyga’r frwynen o gwmpas y plygiad.
Llun 4: Plyga’r gynffon rydd drwy ganol y plygiad ryw ddwy waith.
Llun 5: Sytha’r gynffon nes ei bod yn sefyll i fyny’n syth.

**Sut i chwarae:**
Mae pawb yn rhoi eu cychod bach brwyn yn y dŵr yr un pryd. Y cwch sydd yn mynd bellaf sy’n ennill.

